CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, a'i gynhaliwyd Nos Iau, 15fed o Ionawr 2026

Yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd am 7.30 yh

Presennol:

Cynghorwyr

Hughie Williams, Catherine Hughes, Einir Lewis, Tesni Jones, Nia Jones,

Rhys Jones, Dafydd Llewelyn Williams, a Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

Ymddiheuriadau

Phil Roberts, Cynghorydd Anwen Davies (Sirol), Anne Jones, Wynne Davies

Gareth Roberts

Cadarnhau Cofnodion

Bu i Catherine a Rhys gadarnhau bod cofnodion 11fed o Ragfyr, 2025 yn gofnod cywir.

Materion yn codi

Mandate HSBC

Bu i'r Cynghorwyr gwblhau'r mandate banc, bydd angen i Phil Roberts ei gwblhau yn ystod cyfarfod Chwefror.

Parti Gardd Palas Buckingham, Llundain

Cytunwyd i roi enw Rhys Jones ymlaen i Tracy, Unllais Cymru ar gyfer y cyfle I fynychu'r Parti Gardd yn Palas Buckingham.

Gohebiaeth

Gohebiaeth Gor-yrru Rhydyclafdy

Trafodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Andrew Gregson, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ynghlyn a'r mater gor-yrru ym mhentref Rhydyclafdy. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu ag ef er mwyn trefnu cyfarfod ar safle 21/01/26.

Ceisiadau Cynllunio

Ni wnaeth unrhyw Gynghorydd ddatgan diddordeb yn unrhyw Gais Cynllunio.

Cais Cynllunio

C31/33/LL : Tir yn Hendre, Boduan, LL53 8TY – Bwriad/Cais llawn I gynnal gwaith cloddio er mwyn creu lagŵn slyri – Cytunwyd i gefnogi'r cais.

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA

Rhoddwyd diweddariad ar y cais yma – nodwyd bod yr achos yn wedi mynd i Apél. Cytunwyd i ddisgwyl rwan nes y cawn ymateb gan yr Adran Gynllunio.

Materion Ariannol

Bu i'r Cynghorwyr dderbyn y datganiadau Banc – 04/11/25-03/12/25.

Cysoniad banc o ddyddiad :

04/12/2025 – 03/01/2026 - £3,087.94c

Cafodd 7 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Tesni Jones. Roedd cyfanswm y sieciau yn £607.98c.

Siec Rhif 200931	Hurio Ystafell yn Clwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd	£20.00
Siec Rhif 200932	Costau Teithio'r Clerc	£4.68c
Siec Rhif 200933	Cyllid a Thollau	£53.80c

Siec Rhif 200934	Cyflog y Clerc (Mis 10)	£215.00
Siec Rhif 200935	Ad-dalu'r Clerc am archebu 4 cardyn cydymdeimlad	£6.50c
Siec Rhif 200936	Talu Gareth Roberts (Cotractwr) am glirio a thacluso'r fynedfa o flaen yr Eglwys ym Moduan	£108.00
Siec Rhif 200937	Cyfraniad Ariannol i Gôr Cantorion Llyn	£200.00

Unrhyw fater arall

Arian Lightsource – Fferm Solâr

Nodwyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda Lightsource 05/01/26 i holi am arian y Fferm Sôlar. Bu iddynt gysylltu gyda'r Clerc 07/01/26 angen i ni gadarnhau enw'r safle yn llawn. Bu i'r Clerc ymateb 08/01/26. Rydym yn parhau i ddisgwyl am ymateb ganddynt.

Gohebiaeth Côr Cantorion Llyn

Bu i'r Clerc ddarllen yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Côr Cantorion Llyn.

Trafodwyd ei gynnwys, a phenderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol iddynt o £200.

Gohebiaeth HSBC

Bu i'r Clerc drafod yr ohebiaeth a'i dderbyniwyd gan HSBC yn ddiweddar, Mae'r Banc yn charjo 40c y siec, am i ni dalu gyda siec.

Roedd darn papur arall yn dangos ***"Summary of your charitable bank account charges and interest".*** Gofynnwyd i DLLW fwrw golwg drostynt.

Cyflog y Clerc

Cyflog y Clerc (eitem caeedig) - Trafodwyd Cyflog y Clerc a chytunwyd i'w godi 5%. Penderfynwyd i'w ôl-ddyddio i fis Ionawr. Bydd y newid yn cael ei weithredu arno yng nghyflog Mis Chwefror.